

2019 Rhif 6

**Y GWASANAETH IECHYD
GWLADOL, CYMRU**

**Gorchymyn Byrddau Iechyd Lleol
(Newid Ardaloedd) (Trosglwyddo
Staff, Eiddo ac Atebolrwyddau)
(Cymru) 2019**

NODYN ESBONIADOL

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)

Mae'r Gorchymyn hwn yn darparu ar gyfer trosglwyddo staff, eiddo ac atebolrwyddau ar 1 Ebrill 2019 oddi wrth Fwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Bae Abertawe i Fwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Cwm Taf Morgannwg. Mae'r Gorchymyn hwn wedi ei wneud o ganlyniad i'r newid i ardaloedd y ddau fwrdd iechyd lleol gan Orchymyn Byrddau Iechyd Lleol (Newid Ardaloedd) (Cymru) (Diwygiadau Amrywiol) 2019 ("y Gorchymyn Newid Ardaloedd").

Trosglwyddodd y Gorchymyn Newid Ardaloedd brif ardal llywodraeth leol Pen-y-bont ar Ogwr fel ei bod yn rhan o ardal Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Cwm Taf Morgannwg. Ailenwodd y Gorchymyn Newid Ardaloedd y ddau fwrdd iechyd lleol hefyd.

2019 No. 6

**NATIONAL HEALTH
SERVICE, WALES**

**The Local Health Boards (Area
Change) (Transfer of Staff, Property
and Liabilities) (Wales) Order 2019**

EXPLANATORY NOTE

(This note is not part of the Order)

This Order provides for the transfer on 1 April 2019 of staff, property and liabilities from Swansea Bay University Local Health Board to Cwm Taf Morgannwg University Local Health Board. This Order is made as a result of the change to the area of the two local health boards by the Local Health Boards (Area Change) (Wales) (Miscellaneous Amendments) Order 2019 ("the Area Change Order").

The Area Change Order transferred the principal local government area of Bridgend so that it forms part of the area of Cwm Taf Morgannwg University Local Health Board. The Area Change Order also renamed the two local health boards.

2019 Rhif 6

2019 No. 6

Y GWASANAETH IECHYD
GWLADOL, CYMRUNATIONAL HEALTH
SERVICE, WALESGorchymyn Byrddau Iechyd Lleol
(Newid Ardaloedd) (Trosglwyddo
Staff, Eiddo ac Atebolrwyddau)
(Cymru) 2019The Local Health Boards (Area
Change) (Transfer of Staff, Property
and Liabilities) (Wales) Order 2019*Gwnaed* ***
Yn dod i rym 12:01am 1 Ebrill 2019*Made* ***
Coming into force 12:01am 1 April 2019

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan baragraffau 22 a 24 o Atodlen 2 i Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006(1).

The Welsh Ministers make the following Order in exercise of the powers conferred on them by paragraphs 22 and 24 of Schedule 2 to the National Health Service (Wales) Act 2006(1).

Enwi a chychwyn**Title and commencement**

1.—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Byrddau Iechyd Lleol (Newid Ardaloedd) (Trosglwyddo Staff, Eiddo ac Atebolrwyddau) (Cymru) 2019.

1.—(1) The title of this Order is the Local Health Boards (Area Change) (Transfer of Staff, Property and Liabilities) (Wales) Order 2019.

(2) Daw'r Gorchymyn hwn i rym am 12:01am ar 1 Ebrill 2019.

(2) This Order comes into force at 12:01am on 1 April 2019.

Dehongli**Interpretation**

2. Yn y Gorchymyn hwn—

2. In this Order—

ystyr “y dyddiad trosglwyddo” (“*the transfer date*”) yw 12:01am ar 1 Ebrill 2019;

“the transfer date” (“*y dyddiad trosglwyddo*”) means 12:01am on 1 April 2019;

ystyr “y trosglwyddai” (“*the transferee*”) yw Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Cwm Taf Morgannwg a sefydlwyd gan Orchymyn Byrddau Iechyd Lleol (Sefydlu a Diddymu) (Cymru) 2009(2);

“the transferee” (“*y trosglwyddai*”) means Cwm Taf Morgannwg University Local Health Board established by the Local Health Boards (Establishment and Dissolution) (Wales) Order 2009(2);

- (1) 2006 p. 42.
(2) O.S. 2009/778 (Cy. 66); a ddiwygiwyd gan O.S. 2013/2918 (Cy. 286). Sefydlwyd Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Cwm Taf Morgannwg fel Bwrdd Iechyd Lleol Cwm Taf gan O.S. 2009/778 (Cy. 66). Fe'i hailenwyd yn Fwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Cwm Taf gan erthygl 2(b) o O.S. 2013/2918 (Cy.

- (1) 2006 c. 42.
(2) S.I. 2009/778 (W. 66); amended by S.I. 2013/2918 (W. 286). Cwm Taf Morgannwg University Local Health Board was established as Cwm Taf Local Health Board by S.I. 2009/778 (W. 66). It was renamed Cwm Taf University Local Health Board by article 2(b) of S.I. 2013/2918 (W. 286) and thereafter renamed Cwm Taf Morgannwg University Local Health Board by S.I. 2019/349 (W. 83).

ystyr “y trosglwyddwr” (“*the transferor*”) yw Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Bae Abertawe a sefydlwyd gan Orchymyn Byrddau Iechyd Lleol (Sefydlu a Diddymu) (Cymru) 2009(1).

Trosglwyddo cyflogeion

3.—(1) Mae'r erthygl hon yn gymwys i unrhyw berson—

- (a) sydd wedi ei gyflogi gan y trosglwyddwr yn union cyn y dyddiad trosglwyddo; a
- (b) sydd wedi cael ei hysbysu'n ysgrifenedig gan y trosglwyddwr cyn y dyddiad trosglwyddo ei fod i'w drosglwyddo i'r trosglwyddai.

(2) Mae contract cyflogaeth unrhyw berson y mae paragraff (1) yn gymwys iddo yn cael ei drosglwyddo, ar y dyddiad trosglwyddo, i'r trosglwyddai.

(3) O ran contract cyflogaeth person y mae ei gyflogaeth wedi ei throsglwyddo i'r trosglwyddai o dan baragraff (2)—

- (a) nid yw'r trosglwyddiad yn ei derfynu; a
- (b) mae'n cael effaith o'r dyddiad trosglwyddo fel pe bai wedi ei wneud yn wreiddiol rhwng y person hwnnw a'r trosglwyddai.

(4) Heb ragfarnu paragraff (3)—

- (a) mae holl hawliau, pwerau, dyletswyddau ac atebolrwyddau'r trosglwyddwr o dan contract cyflogaeth unrhyw berson y trosglwyddwyd ei gyflogaeth i'r trosglwyddai ar y dyddiad trosglwyddo o dan baragraff (2), neu mewn cysylltiad â'r contract hwnnw, yn cael eu trosglwyddo hefyd i'r trosglwyddai; a
- (b) bernir bod unrhyw weithred neu anweithred cyn y dyddiad trosglwyddo gan y trosglwyddwr neu mewn perthynas ag ef, mewn cysylltiad â'r person hwnnw neu contract cyflogaeth y person hwnnw, yn weithred neu anweithred gan y trosglwyddai neu mewn perthynas ag ef.

(5) Nid yw paragraffau (2) i (4) yn cael effaith i drosglwyddo contract cyflogaeth person y mae paragraff (1) yn gymwys iddo, neu unrhyw hawliau, pwerau, dyletswyddau ac atebolrwyddau o dan y contract hwnnw neu mewn cysylltiad ag ef, os yw'r person hwnnw, cyn y dyddiad trosglwyddo, yn rhoi gwybod i'r trosglwyddwr ei fod yn gwrthwynebu dod yn gyflogedig gan y trosglwyddai.

(1) 286) ac wedi hynny, fe'i hailenwyd yn Fwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Cwm Taf Morgannwg gan O.S. 2019/349 (Cy. 83). Sefydlwyd Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Bae Abertawe gan O.S. 2009/778 (Cy. 66) fel Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg. Fe'i hailenwyd yn Fwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Bae Abertawe gan O.S. 2019/349 (Cy. 83).

“the transferor” (“*y trosglwyddwr*”) means Swansea Bay University Local Health Board established by the Local Health Boards (Establishment and Dissolution) (Wales) Order 2009(1).

Transfer of employees

3.—(1) This article applies to any person who—

- (a) immediately before the transfer date is employed by the transferor; and
- (b) has been notified in writing by the transferor prior to the transfer date that they are to be transferred to the transferee.

(2) The contract of employment of any person to whom paragraph (1) applies is, on the transfer date, transferred to the transferee.

(3) The contract of employment of a person whose employment has transferred to the transferee under paragraph (2)—

- (a) is not terminated by the transfer; and
- (b) has effect from the transfer date as if originally made between that person and the transferee.

(4) Without prejudice to paragraph (3)—

- (a) all the rights, powers, duties and liabilities of the transferor under, or in connection with, the contract of employment of any person whose employment transferred to the transferee on the transfer date under paragraph (2), are also transferred to the transferee; and
- (b) any act or omission before the transfer date by, or in relation to, the transferor, in respect of that person or that person's contract of employment, is deemed to have been an act or omission of, or in relation to, the transferee.

(5) Paragraphs (2) to (4) do not have effect to transfer the contract of employment of a person to whom paragraph (1) applies, or any rights, powers, duties and liabilities under, or in connection with, that contract, if, before the transfer date, that person informs the transferor that they object to becoming employed by the transferee.

(6) Where a person to whom paragraph (1) applies has objected to the transfer of that person's contract of employment to the transferee as described in paragraph (5), the transfer operates so as to terminate that person's contract of employment with the transferor.

(1) Swansea Bay University Local Health Board was established by S.I. 2009/778 (W. 66) as Abertawe Bro Morgannwg University Local Health Board. It was renamed Swansea Bay University Local Health Board by S.I. 2019/349 (W. 83).

(6) Pan fo person y mae paragraff (1) yn gymwys iddo wedi gwrthwynebu trosglwyddo ei contract cyflogaeth i'r trosglwyddai fel y'i disgrifir ym mharagraff (5), mae'r trosglwyddiad yn gweithredu er mwyn terfynu contract cyflogaeth y person hwnnw â'r trosglwyddwr.

(7) Yn ddarostyngedig i baragraff (8), nid yw person y mae ei contract cyflogaeth yn cael ei derfynu yn unol â pharagraff (6) i'w drin, at unrhyw ddiben, fel pe bai wedi cael ei ddiswyddo gan ei gyflogwr.

(8) Pan fo'r trosglwyddiad yn golygu, neu pan fyddai'n golygu, newid sylweddol yn yr amodau gwaith gan arwain at niwed sylweddol i berson y mae ei gyflogaeth yn cael ei throsglwyddo neu y byddai ei gyflogaeth wedi cael ei throsglwyddo o dan baragraff (2), caiff y person hwnnw drin y contract cyflogaeth fel pe bai wedi cael ei derfynu, ac mae'r person hwnnw i'w drin at unrhyw ddiben fel pe bai wedi cael ei ddiswyddo gan ei gyflogwr.

(9) Nid yw unrhyw iawndal i fod yn daladwy gan gyflogwr o ganlyniad i ddiswyddo sy'n dod o fewn paragraff (8) mewn cysylltiad ag unrhyw fethiant gan y cyflogwr i dalu cyflog i berson mewn cysylltiad â chyfnod rhybudd y mae'r person wedi methu â'i weithio.

(10) Nid yw paragraffau (2), (3), a (5) i (8) yn rhagfarnu unrhyw hawl sydd gan berson sy'n codi ar wahân i'r erthygl hon i derfynu contract cyflogaeth y person hwnnw heb rybudd wrth dderbyn tor contract ymwrthodol gan y cyflogwr.

(11) Mae cofnodion y trosglwyddwr ar gyfer y personau hynny y mae paragraff (1) yn gymwys iddynt ac y mae eu contractau cyflogaeth i'w trosglwyddo i'r trosglwyddai yn unol â'r erthygl hon yn cael eu trosglwyddo i'r trosglwyddai ar y dyddiad trosglwyddo.

Trosglwyddo eiddo

4.—(1) Yn ddarostyngedig i baragraff (2), mae'r erthygl hon yn gymwys i eiddo a ddelir gan y trosglwyddwr yn union cyn y dyddiad trosglwyddo—

- (a) sydd wedi ei nodi yn yr Atodlen; neu
- (b) sydd yn yr ardal a drosglwyddir ac—
 - (i) sy'n ofynnol gan y trosglwyddai at ddibenion arfer swyddogaethau neu mewn cysylltiad ag arfer swyddogaethau yn yr ardal honno neu mewn perthynas â hi ar neu ar ôl y dyddiad trosglwyddo; a
 - (ii) nad yw'n ofynnol gan y trosglwyddwr at ddibenion arfer ei swyddogaethau mewn

(7) Subject to paragraph (8), a person whose contract of employment is terminated in accordance with paragraph (6) is not to be treated, for any purpose, as having been dismissed by their employer.

(8) Where the transfer involves or would involve a substantial change in the working conditions to the material detriment of a person whose employment is or would have been transferred under paragraph (2), that person may treat the contract of employment as having been terminated, and that person is to be treated for any purpose as having been dismissed by their employer.

(9) No damages are to be payable by an employer as a result of a dismissal falling within paragraph (8) in respect of any failure by the employer to pay wages to a person in respect of a notice period which the person has failed to work.

(10) Paragraphs (2), (3), and (5) to (8) are without prejudice to any right of a person arising apart from this article to terminate that person's contract of employment without notice in acceptance of a repudiatory breach of contract by the employer.

(11) Records of the transferor of those persons to whom paragraph (1) applies whose contracts of employment are to transfer to the transferee pursuant to this article are transferred to the transferee on the transfer date.

Transfer of property

4.—(1) Subject to paragraph (2), this article applies to property held by the transferor immediately before the transfer date—

- (a) which is identified in the Schedule; or
- (b) which is situated in the transferred area and which—
 - (i) is required by the transferee for the purposes of, or in connection with, the exercise of functions in or in relation to that area on or after the transfer date; and
 - (ii) is not required by the transferor for the purposes of the exercise of its functions in relation to its own area⁽¹⁾ on or after the transfer date.

(2) This article does not apply to Information and Communications Technology servers situated in the Princess of Wales Hospital, Coity Road, Bridgend

(1) Local Health Boards are established for the area of Wales specified in establishment order and are directed by the Welsh Ministers to exercise functions in relation to its area. S.I. 2009/778 (W. 66) (as amended) lists those areas for which each Local Health Board is established.

perthynas â'i ardal ei hun(1) ar neu ar ôl y dyddiad trosglwyddo.

(2) Nid yw'r erthygl hon yn gymwys i weinyddion Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu yn Ysbyty Tywysoges Cymru, Coity Road, Pen-y-bont ar Ogwr sy'n parhau'n eiddo i'r trosglwyddwr ar ôl y dyddiad trosglwyddo.

(3) Mae unrhyw eiddo y mae'r erthygl hon yn gymwys iddo i'w drosglwyddo, ar y dyddiad trosglwyddo, i'r trosglwyddai.

(4) Mae unrhyw hawliau neu atebolrwyddau sydd gan y trosglwyddwr mewn perthynas ag unrhyw eiddo y mae'r erthygl hon yn gymwys iddo i'w drosglwyddo, ar y dyddiad trosglwyddo, i'r trosglwyddai.

(5) Mae unrhyw eiddo y mae'r erthygl hon yn gymwys iddo sy'n dir neu'n adeiladau yn cael ei drosglwyddo yn ddarostyngedig i, a chyda budd, y canlynol—

- (a) unrhyw lesoedd, tenantiaethau a thrwyddedau presennol ac unrhyw hawliau sydd gan feddianwyr a'u holynwyr;
- (b) unrhyw fuddiant arall yn yr eiddo, ac unrhyw fater sy'n effeithio arno.

(6) Yn yr erthygl hon—

(a) mae trosglwyddo "eiddo" yn cynnwys trosglwyddo cynnwys yr eiddo gan gynnwys unrhyw eitem neu eiddo o ba ddisgrifiad bynnag—

- (i) sy'n eiddo'r trosglwyddwr yn union cyn y dyddiad trosglwyddo; a
- (ii) sy'n bresennol yn neu ar yr eiddo ar y dyddiad trosglwyddo;

gan gynnwys unrhyw gerbyd neu eiddo symudol sydd fel arfer yn cael ei gadw ar y tir hwnnw pan nad yw'n cael ei ddefnyddio;

(b) ystyr "yr ardal a drosglwyddir" yw prif ardal llywodraeth leol Pen-y-bont ar Ogwr fel y'i nodir yn Atodlen 4 i Ddeddf Llywodraeth Leol 1972(2) ac sy'n rhan o ardal y trosglwyddai yn rhinwedd Gorchymyn Byrddau Iechyd Lleol (Newid Ardaloedd) (Cymru) (Diwygiadau Amrywiol) 2019(3).

which remains the property of the transferor after the transfer date.

(3) Any property to which this article applies is on the transfer date, to transfer to the transferee.

(4) Any rights or liabilities that the transferor has in relation to any property to which this article applies are, on the transfer date, to transfer to the transferee.

(5) Any property to which this article applies which consists of land or buildings is transferred subject to, and with the benefit of—

- (a) any existing leases, tenancies and licences and any rights of occupiers and their successors;
- (b) any other interest in, and matter affecting, it.

(6) In this article—

(a) the transfer of "property" includes the transfer of the contents of the property including any item or property of whatever description which is—

- (i) the property of the transferor immediately prior to the transfer date; and
- (ii) present in or on the property on the transfer date;

including any vehicle or moveable property which is normally kept on such land when not in use;

(b) "the transferred area" means the principal local government area of Bridgend as set out in Schedule 4 to the Local Government Act 1972(1) and which forms part of the area of the transferee by virtue of the Local Health Boards (Area Change) (Wales) (Miscellaneous Amendments) Order 2019(2).

Transfer of rights and liabilities

5.—(1) Any rights and liabilities of the transferor which exist immediately before the transfer date that relate to the transferor in the exercise of, or in connection with, a function that is to be exercised on or after that date by the transferee are to transfer on the transfer date to the transferee.

(2) Any liabilities of the transferor which exist immediately before the transfer date that relate to the transferor in the exercise of, or in connection with, a function that is to be exercised on or after that date by the transferee are enforceable against the transferee.

(3) This article is subject to article 8.

(1) Sefydli'r Byrddau Iechyd Lleol ar gyfer yr ardaloedd o Gymru a bennir mewn gorchymyn sefydlu ac fe'u cyfarwyddir gan Weinidogion Cymru i arfer swyddogaethau mewn perthynas â'u hardaloedd. Mae O.S. 2009/778 (Cy. 66) (fel y'i diwygiwyd) yn rhestru'r ardaloedd hynny y mae pob Bwrdd Iechyd Lleol wedi ei sefydlu ar eu cyfer.

(2) 1972 p. 70. Gwnaed diwygiadau perthnasol gan Ddeddf Llywodraeth Leol (Cymru) 1994 (p. 19).

(3) O.S. 2019/349 (Cy. 83).

(1) 1972 c. 70. Relevant amendments were made by the Local Government (Wales) Act 1994 (c. 19).

(2) S.I. 2019/349 (W. 83).

Trosglwyddo hawliau ac atebolrwyddau

5.—(1) Mae unrhyw hawliau ac atebolrwyddau sydd gan y trosglwyddwr sy'n bodoli yn union cyn y dyddiad trosglwyddo ac sy'n ymwneud â'r trosglwyddwr wrth arfer swyddogaeth, neu mewn cysylltiad â hi, sydd i'w harfer ar neu ar ôl y dyddiad hwnnw gan y trosglwyddai i'w trosglwyddo ar y dyddiad trosglwyddo i'r trosglwyddai.

(2) Mae unrhyw atebolrwyddau sydd gan y trosglwyddwr sy'n bodoli yn union cyn y dyddiad trosglwyddo ac sy'n ymwneud â'r trosglwyddwr wrth arfer swyddogaeth, neu mewn cysylltiad â hi, sydd i'w harfer ar neu ar ôl y dyddiad hwnnw gan y trosglwyddai yn orfodadwy yn erbyn y trosglwyddai.

(3) Mae'r erthygl hon yn ddarostyngedig i erthygl 8.

Trosglwyddo gwybodaeth, data a chofnodion

6.—(1) Mae unrhyw eiddo, hawliau ac atebolrwyddau sydd gan y trosglwyddwr, yn union cyn y dyddiad trosglwyddo, mewn perthynas â gwybodaeth, data a chofnodion sy'n ymwneud â'r trosglwyddwr wrth arfer swyddogaeth, neu mewn cysylltiad â hi, sydd i'w harfer ar neu ar ôl y dyddiad hwnnw gan y trosglwyddai i'w trosglwyddo i'r trosglwyddai(1).

(2) Mae trosglwyddo unrhyw wybodaeth, data a chofnodion y mae'r erthygl hon yn gymwys iddynt yn ddarostyngedig i unrhyw hawliau trydydd parti sy'n bodoli mewn perthynas â'r wybodaeth honno neu'r data hynny a'r cofnodion hynny.

Darparu ar gyfer parhad wrth arfer swyddogaethau

7.—(1) Yn ddarostyngedig i erthygl 8, mae unrhyw beth sydd, yn union cyn y dyddiad trosglwyddo, wedi cael ei wneud neu wrthi'n cael ei wneud gan y trosglwyddwr neu mewn perthynas ag ef wrth arfer swyddogaeth, neu mewn cysylltiad â hi, sydd i'w harfer ar neu ar ôl y dyddiad hwnnw gan y trosglwyddai yn cael effaith fel pe bai'n cael ei wneud gan y trosglwyddai neu mewn perthynas ag ef.

(2) Mae paragraff (1) yn gymwys yn benodol i—

- (a) unrhyw gytundeb, penderfyniad, datganiad, dynodiad, dyfarniad neu offeryn a wneir gan y trosglwyddwr;

(1) Trosglwyddir prif ardal llywodraeth leol Pen-y-bont ar Ogwr o'r trosglwyddwr i'r trosglwyddai yn rhinwedd O.S. 2019/349 (Cy. 83). Ar ôl y dyddiad trosglwyddo mae'r trosglwyddai felly yn gyfrifol am arfer swyddogaethau mewn perthynas ag ardal Pen-y-bont ar Ogwr.

Transfer of information, data and records

6.—(1) Any property, rights and liabilities that the transferor has, immediately before the transfer date, in relation to information, data and records that relate to the transferor in the exercise of, or in connection with, a function that is to be exercised on or after that date by the transferee are to transfer to the transferee(1).

(2) The transfer of any information, data and records to which this article applies is subject to any third party rights which exist in relation to that information or those data and records.

Provision for continuity in the exercise of functions

7.—(1) Subject to article 8, anything which, immediately before the transfer date, has been done or is in the process of being done by or in relation to the transferor in the exercise of, or in connection with, a function that is to be exercised on or after that date by the transferee has effect as if done by or in relation to, the transferee.

(2) Paragraph (1) applies in particular to—

- (a) any agreement, decision, declaration, designation, determination or instrument made by the transferor;
- (b) any approval, authorisation, dispensation, exemption, certification, direction or notice;
- (c) any application, objection or proposal made by or to the transferor;
- (d) anything done in relation to a list maintained under or by virtue of sections 49, 63, 72 and 83 of the National Health Service (Wales) Act 2006;
- (e) any fee paid by or to the transferor;
- (f) any appeal made to the transferor or allowed by or in relation to the transferor;
- (g) any proceedings instituted by or against the transferor.

(3) So far as is required for giving effect to paragraphs (1) and (2), a reference in any document to the transferor is to be construed on and after the transfer date as a reference to the transferee.

Investigation of outstanding complaints

8.—(1) Any complaint made to the transferor before the transfer date and which could give rise to a liability

(1) The principal local government area of Bridgend is transferred from the transferor to the transferee by virtue of S.I. 2019/349 (W. 83). After the transfer date the transferee is therefore responsible for exercising functions in relation to the Bridgend area.

- (b) unrhyw gymeradwyaeth, awdurdodiad, gollyngiad, esemptiad, ardystiad, cyfarwyddyd neu hysbysiad;
- (c) unrhyw gais, gwrthwynebiad neu gynnig a wneir gan y trosglwyddwr neu iddo;
- (d) unrhyw beth a wneir mewn perthynas â rhestr a gynhelir o dan neu yn rhinwedd adrannau 49, 63, 72 a 83 o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006;
- (e) unrhyw ffi a delir gan y trosglwyddwr neu iddo;
- (f) unrhyw apêl a wneir i'r trosglwyddwr neu a ganiateir gan y trosglwyddwr neu mewn perthynas ag ef;
- (g) unrhyw achosion a gychwynir gan y trosglwyddwr neu yn ei erbyn.

(3) I'r graddau y mae'n ofynnol er mwyn rhoi effaith i baragraffau (1) a (2), mae cyfeiriad mewn unrhyw ddogfen at y trosglwyddwr i'w ddehongli ar ac ar ôl y dyddiad trosglwyddo fel cyfeiriad at y trosglwyddai.

Ymchwilio i gwynion sydd heb eu datrys

8.—(1) Rhaid i'r trosglwyddwr barhau i ymchwilio ar ôl y dyddiad trosglwyddo i unrhyw gŵyn a wneir i'r trosglwyddwr cyn y dyddiad trosglwyddo ac a allai arwain at atebolrwydd mewn camwedd mewn cysylltiad ag unrhyw hawliad am iawndal am farwolaeth neu anaf personol sy'n deillio o arfer swyddogaeth, neu mewn cysylltiad â hi, sydd i'w harfer ar neu ar ôl y dyddiad trosglwyddo gan y trosglwyddai.

(2) Bernir mai atebolrwydd y trosglwyddwr yw unrhyw atebolrwydd mewn camwedd sy'n deillio o gŵyn y cyfeirir ati ym mharagraff (1) ac nid yw'n trosglwyddo i'r trosglwyddai ar y dyddiad trosglwyddo.

(3) Rhaid i'r trosglwyddwr barhau i ymchwilio ar ôl y dyddiad trosglwyddo i unrhyw gŵyn a wneir i'r trosglwyddwr cyn y dyddiad trosglwyddo ynghylch hawliad ôl-weithredol am ofal iechyd parhaus y GIG.

(4) Bernir mai atebolrwydd y trosglwyddwr yw unrhyw atebolrwydd sy'n deillio o gŵyn y cyfeirir ati ym mharagraff (3) ac nid yw'n trosglwyddo i'r trosglwyddai ar y dyddiad trosglwyddo.

Vaughan Gething

Vaughan Gething

Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol,
un o Weinidogion Cymru 19/03/2019
[] 2019

in tort in respect of any claim for damages for death or personal injury arising from the exercise of, or in connection with, a function that is to be exercised on or after the transfer date by the transferee must continue to be investigated by the transferor after the transfer date.

(2) Any liability in tort which arises from a complaint referred to in paragraph (1) is deemed to be the transferor's liability and does not transfer to the transferee on the transfer date.

(3) Any complaint made to the transferor before the transfer date about a retrospective claim for continuing NHS health care must continue to be investigated by the transferor after the transfer date.

(4) Any liability arising from a complaint referred to in paragraph (3) is deemed to be the transferor's liability and does not transfer to the transferee on the transfer date.

Vaughan Gething

Vaughan Gething

Minister for Health and Social Services, one of the
Welsh Ministers

[] 2019

19/03/2019

YR ATODLEN Erthygl 4

Eiddo

Rhydd-ddaliad Ysbyty Glan-rhyd, Tondu Road, Pen-y-bont ar Ogwr (rhif teitl WA683580)

Rhydd-ddaliad Ysbyty Maesteg, Neath Road, Maesteg (rhif teitl WA69691)

Rhydd-ddaliad Ysbyty Tywysoges Cymru, Coity Road, Pen-y-bont ar Ogwr (rhifau teitl WA683500, WA386604, CYM440590)

Rhydd-ddaliad Clinig Bryncethin, Heol Canola, Pen-y-bont ar Ogwr (rhif teitl WA683576)

Rhydd-ddaliad Clinig Bryntirion, Elm Crescent, Pen-y-bont ar Ogwr (rhif teitl WA683609)

Rhydd-ddaliad Clinig Gogledd Corneli, Heol y Parc, Pen-y-bont ar Ogwr (rhif teitl WA683624)

Rhydd-ddaliad Clinig Bro Ogwr, Aber Road, Bro Ogwr, Pen-y-bont ar Ogwr (rhif teitl CYM16926)

Rhydd-ddaliad Canolfan Gofal Sylfaenol Pencoed, Min y Nant, Pencoed (rhif teitl CYM503728)

Rhydd-ddaliad Clinig Heol Cwarela, Heol Cwarela, Pen-y-bont ar Ogwr (rhif teitl CYM18893)

Rhydd-ddaliad 71 Heol Cwarela, Pen-y-bont ar Ogwr (rhif teitl WA683598)

Les ddyddiedig 14 Ionawr 2010 mewn perthynas â Chanolfan Ddydd ARC, 28 Heol Cwarela, Pen-y-bont ar Ogwr (rhif teitl CYM479733)

Les ddyddiedig 15 Mawrth 2019 mewn perthynas â Celtic Court, Pen-y-bont ar Ogwr

Les ddyddiedig 11 Mehefin 2012 mewn perthynas â North Road Stores, Ystad Ddiwydiannol Pen-y-bont ar Ogwr

Les ddyddiedig 19 Medi 2017 mewn perthynas â Maes Parcio Ysbyty Tywysoges Cymru

Les ddyddiedig 5 Chwefror 2019 mewn perthynas â Chanolfan Gofal Sylfaenol Porthcawl, Mallards Reach, Porthcawl

Les ddyddiedig 25 Mehefin 2012 mewn perthynas â Hartshorn House, Neath Road, Maesteg

SCHEDULE

Article 4

Property

Freehold of Glanrhyd Hospital, Tondu Road, Bridgend (title number WA683580)

Freehold of Maesteg Hospital, Neath Road, Maesteg (title number WA69691)

Freehold of Princess of Wales Hospital, Coity Road, Bridgend (title numbers WA683500, WA386604, CYM440590)

Freehold of Bryncethin Clinic, Heol Canola, Bridgend (title number WA683576)

Freehold of Bryntirion Clinic, Elm Crescent, Bridgend (title number WA683609)

Freehold of North Cornelly Clinic, Heol y Parc, Bridgend (title number WA683624)

Freehold of Ogmere Vale Clinic, Aber Road, Ogmere Vale, Bridgend (title number CYM16926)

Freehold of Pencoed Primary Care Centre, Min y Nant, Pencoed (title number CYM503728)

Freehold of Quarella Road Clinic, Quarella Road, Bridgend (title number CYM18893)

Freehold of 71 Quarella Road, Bridgend (title number WA683598)

Lease dated 14 January 2010 in relation to ARC Day Centre, 28 Quarella Road, Bridgend (title number CYM479733)

Lease dated 15 March 2019 in relation to Celtic Court, Bridgend

Lease dated 11 June 2012 in relation to North Road Stores, Bridgend Industrial estate

Lease dated 19 September 2017 in relation to Princess of Wales Hospital Car Park

Lease dated 5 February 2019 in relation to Porthcawl Primary Care Centre, Mallards Reach, Porthcawl

Lease dated 25 June 2012 in relation to Hartshorn House, Neath Road, Maesteg